

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd yr Ysgyfaint Cross-Party Group on Lung Health

Cofnodion 19 Medi 2023

Yn bresennol

Aelodau o'r Senedd

John Griffiths AS (yn cael ei gefnogi gan Andrew Bettridge)

Y rhai nad ydynt yn Aelodau (19)

Ben Coates - Asthma + Lung UK Cymru (Ysgrifenyddiaeth)

Alice Spencer

Chrissie Gallimore

Dave Edwards

Emma Clitheroe

Frankie Toner

Henry Davies

Joanne Allen

Jonathan Morgan

Joseph Carter

Josephine Cock

Julie Mayes

Meg Lewis

Pam Lloyd

Philip Webb

Rhys Taylor

Stephanie Woodland

Steven Adair

Val Maidment

1. John Griffiths AS - Croeso a chyflwyniadau

Agorodd **John Griffiths AS** y cyfarfod, gan ddiolch i bawb am ddod. Gofynnodd a oedd unrhyw Aelod o'r Senedd neu unrhyw aelod o staff cymorth am gyflwyno ei hun.

Dywedodd **John Griffiths AS** mai **Philip Webb** fyddai'r unig gyflwynydd heddiw. Anogodd bobl i ofyn cwestiynau drwy ddefnyddio'r blwch sgwrsio.

2. John Griffiths AS - Ymddiheuriadau

Mae'r Aelodau a ganlyn wedi anfon eu hymddiheuriadau:

Rhun ap Iorwerth AS

Rhys ab Owen AS

Jane Dodds AS
Heledd Fychan AS
Russell George AS
Llyr Gruffydd AS
Mike Hedges AS
Vikki Howells AS
Altaf Hussain AS
Mark Isherwood AS
Peredur Owen Griffiths AS
Rhianon Passmore AS
Buffy Williams AS

3. **John Griffiths AS** - Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Gan nad oedd unrhyw un o'r Aelodau a oedd yn bresennol heddiw hefyd yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol, nid oedd modd cymeradwyo'r cofnodion. Bydd **Joseph Carter** yn siarad ag Altaf Hussain, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol, er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo.

Cam i'w gymryd: Joseph Carter i gysylltu ag Altaf Hussain AS at ddibenion cymeradwyo'r cofnodion.

Roedd Altaf Hussain AS yn hapus i gymeradwyo cofnodion Mehefin 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **Joseph Carter** - Materion sy'n codi

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol yn y cyfarfod blaenorol:

- **Cam gweithredu** - Joseph Carter i gyflwyno gwaith papur y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol i'r Swyddfa Gyflwyno
 - Wedi'i gwblhau
- **Cam i'w gymryd: Joseph Carter** i gysylltu â **John Griffiths AS** mewn perthynas ag ysgrifennu llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch menywod ag asthma. Bydd ymateb y Gweinidog yn cael ei ddsbarthu ynghyd â chofnodion y cyfarfod hwn.
 - Wedi'i gwblhau
- **Cam i'w gymryd: Joseph Carter** i ddsbarthu'r cyflwyniad ynghylch menywod ag asthma, ynghyd â'r cofnodion.
 - Wedi'i gwblhau
- **Cam i'w gymryd: Joseph Carter** i ddsbarthu'r cyflwyniad ynghylch y ddadl ar iechyd yr ysgyfaint, ynghyd â'r cofnodion.
 - Wedi'i gwblhau

5. **Philip Webb, Arloesedd Anadlol Cymru - Ansawdd Aer yn y Dyfodol - A ddylai anadlu aer glân fod yn hawl?**

Cyflwynodd **John Griffiths AS** **Philip Webb**, gan ddiolch iddo am roi cyflwyniad.

Dechreuodd Philip ei gyflwyniad drwy ddadlau nad ydym yn ymdrin ag achosion iechyd anadlol gwael. Yn hytrach, mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar gyffuriau, meddyginiaethau a dyfeisiau.

Dywedodd mai ansawdd aer mewn lleoliadau dan do yw'r 'eliffant yn yr ystafell' o ran y drafodaeth sy'n digwydd ynghylch yr hyn sy'n achosi iechyd anadlol gwael. Nododd nad oes gan Sefydliad Iechyd y Byd safonau ansawdd aer ar gyfer lleoliadau dan do o hyd. Bydd cyfarfod cyntaf y sefydliad lle bydd y mater hwnnw'n cael ei drafod yn cael ei gynnal ar 20 Medi 2023.

Nododd fod ansawdd aer gwael yn lladd mwy o bobl na COVID-19, a'i fod yn parhau i wneud hynny. Aeth ymlaen i sôn am ddata diweddar o Tsieina, sy'n dangos bod person sydd â lefel o PM2.5 sy'n fwy na 10 microgram fesul metr ciwbig yn wynebu risg marwolaeth sydd tua 4 y cant yn uwch.

Nododd y byddai ei gyflwyniad yn dangos bod crynodiadau uwch o PM2.5 yng nghartrefi pobl eisoes. Nododd hefyd mai clefyd cardiofasgwlaidd ac iechyd meddwl yw'r unig ffactorau sy'n uwch nag ansawdd aer gwael o ran eu heffaith ar y gyfradd marwolaethau.

Dangosodd Philip ddata gan Sefydliad Iechyd y Byd a oedd yn nodi bod pobl yn treulio 93 y cant o'u hamser mewn amgylchedd dan do - 87 yn eu cartrefi, manau cyhoeddus neu weithleoedd, a 6 y cant mewn cerbydau preifat. Cyferbynodd ymdrechion Llywodraethau i fynd i'r afael ag ansawdd aer - sy'n canolbwyntio'n bennaf â llygredd mewn amgylcheddau awyr agored - â'r amser y mae pobl yn ei dreulio mewn amgylcheddau dan do. Dywedodd fod angen rhoi mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â llygredd aer mewn amgylcheddau dan do.

Yna, amlinellodd feysydd o ddiddordeb sy'n berthnasol i'r her o ymdrin â her llygredd aer mewn lleoliadau dan do:

- **Y Bil Cartrefi Iach** - Gweithio gyda'r Arglwydd Chris. Mae'r Bil yn cydnabod bod y ffordd yr ydym yn dylunio cartrefi ar hyn o bryd yn achosi afiechydon ar draws y boblogaeth. Mae'r cam o ddiogelu ansawdd aer mewn lleoliadau dan do wedi'i gynnwys fel rhan o'r 11 egwyddor sy'n sail i'r Bil.
 - Mewn sgysiau â Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid mabwysiadu a chymhwyso'r drefn hon i Gymru, mae swyddogion wedi dweud y byddai'n well ceisio ei chyflwyno drwy reoliadau adeiladu yn hytrach na deddfu, a hynny yn sgil diffyg capasiti ddeddfwriaethol y Senedd ar hyn o bryd.
- **Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)** - Wedi dechrau rhoi arweiniad. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol, yn ogystal â datblygwyr. Yng nghyd-destun y broses o adeiladu cartrefi, mae'r sefydliad yn darparu cyngor ynghylch sut i ddiogelu ansawdd aer yn ystod y cyfnod dylunio.
- **Bil Aer Glân (Hawliau Dynol)** - Mae'r ddeddfwriaeth hon yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd.
- **BSI 40:102** - Wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar fel llythyr at bob landlord masnachol, gan ymgorffori iechyd, lles a safonau ansawdd amgylcheddol ar gyfer lleoliadau dan do mewn adeiladau masnachol a gweithleoedd. Gallai

sbarduno achosion o ymglyfreitha, os oes gan weithwyr gyflyrau iechyd y gellir eu priodoli i ansawdd a safonau gwael yn y gweithle.

Yna, rhoddodd Philip drosolwg o ystadegau allweddol sy'n berthnasol i ansawdd aer mewn lleoliadau dan do, gan gynnwys y pwyntiau a ganlyn:

- Mae tua 2.4 biliwn o bobl yn defnyddio tanwydd llygrol i wresogi eu cartrefi a choginio, a bob blwyddyn, mae 3.2 miliwn o bobl yn marw'n gynamserol o ganlyniad i lygredd aer yn y cartref. (Sefydliad Iechyd y Byd)
- Mae mwy na 99 y cant o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd lle mae lefelau llygredd aer yn uwch na'r lefelau a argymhellir yng nghanllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd, ac mae 4.2 miliwn o farwolaethau yn cael eu priodoli i lygredd aer amgylchynol bob blwyddyn. (Sefydliad Iechyd y Byd)

Yna, soniodd Philip am astudiaeth achos a oedd yn dangos y canlyniadau anfwriadol a oedd yn gallu deillio o ansawdd aer gwael mewn lleoliadau dan do, a hynny o ganlyniad i ddefnyddio systemau rheoli adeiladau / adeiladau clyfar. Roedd yr enghraifft yn canolbwyntio ar adeilad prifysgol a oedd yn agos iawn at reilffordd, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan drenau â pheiriannau diesel. Roedd ffenestri'r adeilad yn cael eu hagor yn unol â'r egwyddorion dylunio, gan achosi'r lefelau o lygryddion a oedd y bresennol, gan gynnwys PM1, PM2.5, PM4 a PM10, i gynyddu'n gyflym.

Roedd astudiaeth achos pellach a oedd yn ymwneud â lefelau llygredd mewn fferyllfa, gan ganolbwyntio'n benodol ar y lefelau o CO₂, NO₂, a PM_{2.5} a oedd yn bresennol.

Sesiwn holi ac ateb yn dilyn cyflwyniad Philip Webb

Gwnaeth **John Griffiths AS** wahodd pawb i ofyn cwestiynau i **Philip**.

Gofynnodd **Joseph Carter** am y camau yr hoffai Arloesedd Anadlol Cymru weld Aelodau o'r Senedd yn eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â llygredd aer mewn lleoliadau dan do.

Dywedodd **Philip Webb** fod gan y cyhoedd lefel isel o ymwybyddiaeth ynghylch effeithiau negyddol ansawdd aer gwael ar iechyd a lles. Galwodd ar y grŵp i helpu ymdrechion i godi ymwybyddiaeth ynghylch ansawdd aer gwael mewn lleoliadau dan do.

Tynnodd sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r 'eliffant yn yr ystafell', sef y ffordd y caiff cartrefi eu dylunio a'u hadeiladu yn y DU. Yn benodol, tynnodd sylw at y ffaith mai dim ond i adeiladau masnachol y mae BSI 40:102, sef y Safon Adeiladu Brydeinig, yn cael ei gymhwyso. Dywedodd fod cryn dipyn o waith i'w wneud gyda rhanddeiliaid yn y sector adeiladu er mwyn sicrhau bod yr egwyddor o ddiogelu iechyd a lles defnyddwyr adeiladau yn cael ei hymgorffori fel un o'r egwyddorion sy'n sail i'w ffyrdd o weithio, yn hytrach na bod datblygwyr yn canolbwyntio yn unig ar hyfywedd masnachol prosiectau.

Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio safonau adeiladu a sicrhau bod dyfeisiau sy'n rheoli ac yn mesur ansawdd aer mewn adeiladau ar gael am gost fforddiadwy. O safbwynt Llywodraeth Cymru, dywedodd fod Cymru mewn sefyllfa dda i arwain yn fyd-eang yn y maes hwn, a hynny o ganlyniad i'r 'màs critigol' sy'n bodoli yn y wlad, gan gynnwys ei phrifysgolion, a'i phresenoldeb o ran diwydiant a gweithgynhyrchu.

Yna, trodd **Philip Webb** at stofiau sy'n llosgi coed. Gosododd Arloesedd Anadlol Cymru fonitor ansawdd aer ger stôf sy'n llosgi coed. Dangosodd y canlyniadau yn bendant fod stofiau o'r fath yn cynhyrchu deunydd gronynnol sylweddol.

Tynnodd sylw at y cymhlethdodau cymdeithasol y byddai gwahardd y defnydd o stofiau sy'n llosgi coed yn arwain atynt. Nododd fod pobl sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru yn llosgi coed yn sgil y costau uchel iawn sydd ynghlwm wrth ddefnyddio tanwyddau eraill i wresogi eu cartrefi. Felly, byddai gwahardd y defnydd o'r stofiau hyn yn amddifadu cymunedau sydd eisoes yn ddifreintiedig.

Gofynnodd **John Griffiths** a yw'r ysgogwyr amgylcheddol ym maes newid hinsawdd bob amser yn cyd-fynd â materion sy'n ymwneud â llygredd aer. Dywedodd **Philip** nad oes modd datgysylltu eich ansawdd aer mewn lleoliad dan do o'ch datrysiad ynni.

Yna, trodd **Philip Webb** at densiwn arall yn y broses o daro cydbwysedd wrth ddatgarboneiddio a gwella ansawdd aer, gan nodi enghraifft yng ngham un o brosiect Pentre Awel. Fel rhan o'r prosiect, defnyddiwyd systemau awyru goddefol mewn adeiladau, yn hytrach na systemau awyru mecanyddol. Roedd hwn yn gam cadarnhaol o safbwynt yr amgylchedd ac ynni. Fodd bynnag, ni chasglwyd data ar ansawdd aer yn yr awyr agored. O ystyried cyd-destun y prosiect, mae problem ddifrifol o ran llygredd aer a achosir gan dechnoleg amaeth, sef y cynhyrchydd llygredd aer mwyaf ond un.

Er mwyn sicrhau bod gennym bersbectif cyfannol ar ansawdd aer, mae angen sefydlu trefn fwy effeithiol ar gyfer mesur ansawdd aer mewn lleoliadau dan do ac yn yr awyr agored, gan gofnodi data a darlenniadau cywir. Dylid bwydo'r data hyn i ddangosfwrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Yna, gallai pobl ddefnyddio ap er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r ansawdd aer ar amser penodol, er enghraifft, cyn gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gweithgarwch y diwrnod hwnnw. Bwriad trefniant o'r fath fyddai diogelu iechyd anadlol pobl yn sgil achosion o ansawdd aer gwaeth. Byddai dangosfwrdd cyhoeddus o'r fath yn caniatáu i ddefnyddwyr gael dealltwriaeth gliriach o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer yn yr ardaloedd y maent yn byw ac yn teithio ynddynt.

Soniodd **Meg Lewis** am lygredd mewn lleoliadau dan do a'i phrofiad o ddioddef cyflwr difrifol ar yr ysgyfaint. Yna, soniodd am y camau y mae angen eu cymryd, yn ei barn hi, i ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag llygredd aer mewn lleoliadau dan do. Soniodd am y manteision sylweddol y gall adsefydlu ysgyfeintiwl arwain atynt i

gleifion, o ran adfer eu gallu i barhau i fod yn weithgar yn economaidd a gwella eu hiechyd.

Galwodd hefyd am ddeddfwriaeth gryfach i ddiogelu pobl rhag ansawdd aer gwael mewn lleoliadau dan do - yn enwedig mewn adeiladau cyhoeddus - ac am ragor o gamau gweithredu i leihau amseroedd aros ar gyfer adsefydlu ysgyfeintiol a gwasanaethau anadlol eraill. Nododd hefyd fod agweddau hormonaidd ar iechyd anadlol gwael yn aml yn cael eu methu gan weithwyr meddygol proffesiynol wrth iddynt sgwrsio â chleifion.

Wrth ymateb, soniodd **Philip Webb** am enghreifftiau o waith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn. Nododd fod nifer o declynnau o safon isel i fesur ansawdd aer ar gael i'w prynu'n hawdd. Fodd bynnag, pwysleisiodd y ffaith ei bod yn hanfodol defnyddio synwryddion ansawdd aer o safon uchel er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o ansawdd aer mewn lleoliadau dan do. Awgrymodd fod angen sicrhau bod synwryddion o'r fath yn fasnachol hyfyw, gan ragweld y byddai hyn yn golygu eu prisio rhwng £300 a £400.

Soniodd **Philip Webb** am enghraifft lle byddai claf ag iechyd anadlol gwael yn mynd i weld meddyg teulu. Byddai'r meddyg teulu yn rhagnodi meddyginiaeth i drin y symptomau, megis anadlydd glas a brown, ond yna'n dweud wrth y claf am ddychwelyd i'w gartref, lle gallai'r ansawdd aer fod yn achosi iechyd anadlol gwael y claf yn y lle cyntaf. Felly, mae gwella'r broses o fonitro ansawdd aer yn y cartref yn gam cyntaf hanfodol.

Yn ôl **Philip**, unwaith y bydd trefniadau monitro effeithiol wedi'u rhoi ar waith mewn cartrefi, y peth nesaf fyddai cymryd camau i wella ansawdd aer mewn cartrefi mewn achosion lle mae'r trefniadau monitro wedi nodi bod yr ansawdd aer yn wael. Dywedodd fod datrysiadau symudol fforddiadwy ar gael a fyddai'n galluogi pobl i gael gwared ar lygryddion yn yr aer yn eu cartrefi. Y cam nesaf fyddai gwella systemau awyru a llif aer mewn cartrefi, a hynny mewn modd lle nad oes angen gwariant sylweddol arnynt.

Yna, trafododd **Philip Webb** sut y byddai modd sicrhau bod hyn yn cael ei wireddu mewn cymunedau difreintiedig, lle mae llai o gyllid ar gael i aelwydydd ar gyfer gwelliannau o'r fath. Tynnodd sylw at ddau gynllun sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd a allai gefnogi'r ymdrechion hyn, gan nodi y byddai angen diwygiadau i'w meini prawf cymhwystra a'r allbynnau a ganiateir y byddai'r cynlluniau hyn yn eu hariannu. Wrth sôn am y cynllun cyntaf, sef ECO4, cadarnhaodd Philip fod Arloesedd Anadlol Cymru yn gweithio gyda'r cynllun er mwyn sicrhau bod systemau monitro ansawdd aer yn gallu cael eu gosod yng nghartrefi pobl, a hynny ar ben y gwaith adfer presennol a ganiateir o dan y cynllun. Y cynllun nesaf sy'n cynnig llwybr posibl ar gyfer gosod synwryddion ansawdd aer yw LA Flex, sy'n caniatáu i awdurdod lleol drefnu arolygiad o gartref lle mae gan aelodau o'r aelwyd gyflwr iechyd. Yna, yn sgil yr arolygiad hwnnw, gellir cynghori aelwyd ynghylch y newidiadau sydd eu hangen i wella iechyd a lles aelodau o'r aelwyd honno. Y

rhwystr allweddol i'w oresgyn mewn perthynas â'r cynlluniau hyn yw ymwybyddiaeth y cyhoedd yn eu cylch. Er enghraifft, mae ECO4 yn destun tanwariant o 11 y cant.

Yn ôl **Meg Lewis**, nid oes gan lawer o bobl wybodaeth eisoes am oblygiadau eu cyflyrau anadlol. Er mwyn ceisio llenwi'r bwlch gwybodaeth hwn, galwodd am 'becyn croeso' ar gyfer iechyd anadlol, a fyddai'n amlinellu canlyniadau cyflyrau anadlol mewn modd cynhwysfawr, gan nodi'r camau y gall cleifion eu cymryd i geisio rheoli eu symptomau. Mae bwlch amlwg i'w bontio rhwng cael diagnosis a byw'n dda yn dilyn y diagnosis hwnnw.

Gwnaeth **Philip Webb** ailadrodd ei alwad i gwmnïau adeiladu ymgorffori ansawdd aer yn eu ffyrdd o feddwl wrth ddylunio ac adeiladu adeiladau ledled Cymru. Byddai angen cyflawni hyn drwy reoleiddio - a thrwy deddfwriaeth, o bosibl - gan nad yw cwmnïau adeiladu yn gwneud hyn yn wirfoddol. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno 'hawl i anadlu aer glân', gan awgrymu y gallai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hyrwyddo ac arwain y gwaith o gyflawni hyn.

6. **Joseph Carter** - y cyfarfod nesaf a'r gwaith sydd i ddod

Gofynnodd **John Griffiths AS** i **Joseph Carter** i siarad am gyfarfodydd yn y dyfodol. Diolchodd **Joseph** i bawb am eu cyfraniadau ac am roi o'u hamser i ddod i'r cyfarfod. Cadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 28 Tachwedd 2023. Yn ogystal, dywedodd wrth y rhai a oedd yn bresennol y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Aer Glân yn clywed sylwadau ynghylch effaith llosgi domestig mewn cyfarfod sydd ar ddod.

7. **John Griffiths AS** - Unrhyw fater arall

Gofynnodd **John Griffiths AS** a oedd unrhyw un am godi unrhyw fater arall. Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd **John Griffiths** i bawb am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.